*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg yn ogystal â sicrhau bod rheolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol.

3 Mae angen rheolaethau mewnol priodol a gweithredol fel sylfaen i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Rheoli Mewnol blynyddol. Pan fyddant yn cymeradwyo'r Datganiad Rheoli Mewnol, mae'r Awdurdod yn dibynnu ar waith archwilio mewnol ac felly mae'n rhaid i'r trefniadau archwilio mewnol fod yn ddigonol i roi sicrwydd.

4 Mae swyddogaeth archwilio mewnol yr Awdurdod yn cael ei chyflawni gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA). Mae adolygiadau archwilio mewnol yn cael eu cynllunio a'u blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg gan sicrhau bod rheolaethau allweddol yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Mae'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer 2026/27 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Cymeradwyo rhaglen waith arfaethedig 2026/27 ar gyfer archwilio.**

**CEFNDIR**

6 Mae presenoldeb a gweithrediad rheolaethau effeithiol yn hanfodol i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ac maen nhw'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Datganiad Rheoli Mewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Mae gwaith MIAA yn cael ei lywodraethu gan safonau proffesiynol sy'n sicrhau dull systematig a chadarn.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r gwaith manwl a wneir gan MIAA yn cael ei gynllunio a'i flaenoriaethu yn ôl asesiadau risg sy'n ystyried risgiau lleol a chenedlaethol. Mae'r cynllun manwl ar gyfer 2026/27 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n cadarnhau'r rhaglen archwilio arfaethedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli a gweithredu systemau ariannol a systemau allweddol eraill mewn ffordd briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod a monitro cyllidebau yn effeithiol ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol ac yn gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae gwaith MIAA yn cadarnhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac/neu mae'n gwneud argymhellion ar sut i wella. |